# Syniad i agor ysgol arbennig newydd yng Ngwersyllt

Dogfen Ymgynghori

Fersiwn Plant a Phobl Ifanc



WCBC/ER940/30092025




wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

## Pwy ydym ni?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gyfrifol am bob ysgol yn ein hardal. Rydym ni'n rhan o dîm sy'n gweithio i'r Cyngor i gefnogi'r ysgolion hyn.

## Ein Nodau:

- Rhoi'r cyfle gorau i bob plentyn a pherson ifanc ddysgu mewn ysgolion Cymraeg, Saesneg neu Ffydd rhagorol.
- Sicrhau adeiladau ysgol diogel a chryf.
- Gwneud yn siŵr bod arian i blant a phobl ifanc yn cael ei wario mewn ffordd deg.
- Rhoi cyfle i bawb leisio eu barn a gwrando ar safbwyntiau pawb am benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.



## Beth sy'n digwydd ar hyn o bryd?

Rydym yn ystyried cynyddu nifer y lleoedd ysgol arbennig ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae hyn oherwydd bod mwy o blant nawr sydd angen lle mewn ysgol arbennig yn Wrecsam ac mae angen mwy o ysgolion arbennig arnom.

## Beth yw ein syniad ni?

Agor ysgol arbennig newydd yn Wrecsam i ddisgyblion 3-11 oed.

Byddai'r ysgol newydd ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl.



## Beth allai newid?

Byddai'r ysgol arbennig newydd yn agor.

Bydd disgyblion sy'n mynd i'r ysgol arbennig newydd yn gallu aros yn Wrecsam i gael eu haddysg.

## Pam rydym yn meddwl bod angen i bethau newid?

Mae angen mwy o leoedd arnom ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn Wrecsam.



## Pam rydym ni'n gofyn am dy farn?

Rydym am ofyn i ti beth yw dy farn am ein syniad.

## Pa mor hir fydd pethau'n cymryd?

Pobl yn dweud eu barn wrthym ni:


**Mehefin 2026 i Gorffennaf 2026**

Cytuno ar beth rydym ni'n ei wneud:

**Chwefror 2027**

Agor yr ysgol arbennig newydd:

**Medi 2027**




## Eisiau gwybod mwy?

Rydym ni wedi gwneud hwn yn fyr ac mewn ffordd y byddi di'n ei ddeall, gobeithio. Rydym wedi ysgrifennu dogfen llawer mwy ar gyfer eich rhieni, athrawon a phobl eraill.

Mae'r dogfennau hirach i'w gweld ar ein gwefan drwy chwilio am 'Ymgynghoriadau Trefniadaeth Ysgolion' ar wrecsam.gov.uk neu drwy sganio'r Cod QR.


# Beth wyt ti'n ei feddwl?

Dywedwch wrthym **a ydych chi'n deall** ein syniad trwy dicio un o'r blychau isod.




Dw i'n deall

☐



Dydw i ddim yn siŵr os ydw i'n deall


☐



Dydw i ddim yn deall


☐

Dywedwch wrthym sut **rydych chi'n teimlo** am ein syniad trwy dicio un o'r blychau isod.




Dw i'n ei hoffi

☐



Dydw i ddim yn gwybod os ydw i'n ei hoffi

☐



Dydw i ddim yn ei hoffi

☐

# Oes yna unrhyw beth arall yr hoffet ti ei ddweud?

Cofia ddweud wrthym ni...

- Oes yna unrhyw beth arall yr hoffet ei weld yn hytrach na'r hyn rydym ni yn ei gynllunio?
- Hoffet ti ddweud unrhyw beth arall?

Anfona dy sylwadau atom ni erbyn **16 Gorffennaf 2026**

## Ebost

Anfona dy sylwadau atom ni dros ebost:
ALNschoolconsultation@wrexham.gov.uk

## Arolwg ar-lein

Cwblhewch yr arolwg ar-lein
yn yourvoice.wrexham.gov.uk
neu sganiwch y cod QR.

## Ysgrifenna atom ni

Anfona dy sylwadau drwy ysgrifennu atom ni:
Addysg, Stryt y Lampint,
Wrecsam, LL11 1AR

# Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddwn yn casglu'r holl atebion ac yn rhannu'r prif sylwadau â phawb.

### Medi 2026

Bydd y cyngor yn cynnal cyfarfod er mwyn penderfynu beth i'w wneud.

### Chwefror 2027

Byddwn yn rhoi gwybod i bawb beth yw'r penderfyniad.

### Mawrth 2027

